office of the independent adjudicator

# Fframwaith Arfer Da

## Egwyddorion

Mae deg egwyddor allweddol sy'n berthnasol i bob un o'r prosesau yr ymdrinnir â hwy yn y Fframwaith Arfer Da. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr egwyddorion a dylid eu cymryd yn eu cyfanrwydd.

## Mae prosesau da yn:

- Hygyrch a chlir
- Teg, annibynnol a chyfrinachol
- Cynhwysol
- Hyblyg, cymesur ac amserol

Ac maent yn

- Gwella profiad myfyrwyr

## Mae hyn yn golygu:

### Hygyrch a chlir

- Mae'n hawdd dod o hyd i'r broses, ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu ffurflenni cysylltiedig.
- Cyhoeddir y broses mewn fformatau hygyrch, a gellir darparu'r wybodaeth hon mewn sawl fformat gwahanol pan fo angen.
- Mae'r broses wedi'i gosod allan a'i hesbonio'n glir ac mae'r iaith a ddefnyddir yn hawdd i'w deall.
- Mae'r broses ac unrhyw ganllawiau neu ffurflenni ategol yn cydffurfio â Safonau'r Gymraeg pan fyddant yn berthnasol.
- Mae myfyrwyr yn deall pa broses i'w dilyn a phryd.
- Mae'r broses yn hawdd i'w dilyn ac yn esbonio pwy fydd yn gwneud beth, a phryd.
- Mae myfyrwyr yn gwybod sut i gael cymorth, cyngor a chefnogaeth.
- Gall myfyrwyr fod â chynrychiolydd.

### Teg, annibynnol a chyfrinachol

- Mae staff sy'n gwneud penderfyniadau wedi'u hyfforddi'n briodol, mae ganddynt yr adnoddau a'r cymorth priodol, ac maent yn dod i bob penderfyniad o'r newydd.
- Mae cyfle cyfartal i'r rhai sy'n gysylltiedig i gyflwyno eu hachos.
- Mae gwybodaeth a ddefnyddir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel arfer yn cael ei rhannu gyda'r myfyriwr. Lle na ellir rhannu gwybodaeth, caiff hynny ei esbonio.
- Rhoddir rhesymau clir dros benderfyniadau a wneir.
- Gwneir penderfyniadau gan bobl yr ystyrir eu bod yn rhydd o unrhyw duedd neu ragfarn a heb wrthdaro o ran buddiannau yn ystod pob cam o'r broses.
- Cedwir gwybodaeth am y myfyriwr, ac a ddarperir gan y myfyriwr, yn gyfrinachol cyn belled ag y bo modd.

## Cynhwysol

- Mae disgwyl i bawb ymddwyn yn rhesymol tuag at ei gilydd, a thrin y prosesau eu hunain â pharch
- Cynlluniwyd y broses i fod yn gefnogol, a chaiff rhwystrau eu nodi a'u lleihau neu eu dileu.
- Ni chaiff myfyrwyr eu hanfanteisio oherwydd eu bod wedi gwneud cwyn neu wedi herio penderfyniad a wnaed gan y darparydd.
- Gwrandewir ar fyfyrwyr ac mae yna gydnabyddiaeth bod profiadau gwahanol gan bob unigolyn dan sylw, ac y gallant wneud cyfraniadau o werth.

## Hyblyg, cymesur ac amserol

- Mae yna hyblygrwydd pan fo myfyriwr yn codi materion sy'n perthyn i fwy nag un broses.
- Gellir datrys y mater cyn gynted â phosibl, ac yn anffurfiol pan fo hynny'n briodol.
- Nid oes mwy na thri cham:
  - Datrysiad cynnar ar lefel leol, lle bo hynny'n bosibl
  - Cam ffurfiol
  - Cam adolygu
- Mae terfynau amser clir ar gyfer cychwyn y broses.
- Gellir nodi materion sydd angen ymateb arbennig o gyflym.
- Fel arfer mae'n cymryd llai na 90 diwrnod calendr i gwblhau'r broses, o ddechrau'r cam ffurfiol, a chaiff myfyrwyr eu hysbysu ynghylch y cynnydd a wneir.

## Gwella profiad myfyrwyr

- Mae yna ddiwylliant agored a chadarnhaol o wrando ar adborth a rhannu dysgu sy'n annog myfyrwyr i fod yn hyderus y byddant yn cael eu trin yn deg.
- Gwneir penderfyniadau ar lefel briodol a chan bobl sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.
- Cedwir cofnodion da fel rhan o'r broses, a chaiff yr hyn a ddysgir ei gasglu ynghyd fel bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud, a bod camau priodol yn cael eu cymryd pan gaiff materion eu dynodi.
- Defnyddir unrhyw wybodaeth a gesglir er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr a phrofiad myfyrwyr.

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch**

office of the independent adjudicator

Second Floor Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
Berkshire
RG1 3AB

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk

**Diweddarwyd Rhagfyr 2022**